Cyngor Sir CEREDIGION County Council	
ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	27 Gorffennaf 2022
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Trosolwg: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir gan Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Er mwyn bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir

Cefndir

Ffurfiwyd Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn rhan o'r Ailstrwythuro Corfforaethol ehangach a ddigwyddodd yn 2018 ac yn awr mae'n un o'r deuddeg maes gwasanaeth sy'n darparu a chyflenwi'r ystod lawn o wasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor.

https://www.ceredigion.gov.uk/media/6334/organisation-chart.pdf

Nod y gwasanaeth yw darparu gwasanaethau effeithlon, cynaliadwy, cryf a dwyieithog i bobl Ceredigion gan hyrwyddo lles yn ein cymunedau, balchder mewn amgylchedd iach y gofelir amdano a hyder yn ein heconomi leol sy'n gwella ansawdd bywyd bob dydd i'r genhedlaeth bresennol yng Ngheredigion, a'r cenedlaethau i ddod.

Yn greiddiol i ethos cyfan y gwasanaeth ceir Caru Ceredigion a grëwyd ac a ddatblygwyd gan y Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Amgylcheddol ac a fabwysiadwyd wedi hynny gan y Cyngor. Y gobaith yw ysbrydoli pawb yn y Sir i hyrwyddo'r pethau cadarnhaol o ran ymddygiad, agweddau a phroffil sy'n llesol iddyn nhw, y gymuned ac i Geredigion.

Mae Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn gwneud hyn drwy dîm o fwy na 250 o staff sy'n cyflawni dros 320 o swyddi ac sy'n gweithio ledled ein depos gweithredol yng Nglanyrafon, Penrhos, Bryn-y-Môr a Thregaron, a naill ai o bell neu o swyddfeydd y Cyngor yng Nghanolfan Rheidol a Phenmorfa.

Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod amrywiol a chymhleth o feysydd gwasanaeth y mae'r cyhoedd yn eu gweld fel y swyddogaethau sylfaenol/craidd y mae'r Cyngor Sir yn ei ddarparu a/neu gydlynu, gan gynnwys y rhai a nodwyd gan Archwilio Cymru yn ddiweddar y rhai "*mwyaf gwerthfawr o gryn dipyn'*:

https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/At-your-discretion-English.pdf

Mae'r ystod lawn o wasanaethau/swyddogaethau a ddarperir gan Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cynnwys:

Gwasanaethau Amgylchedd Lleol

- Cynnal a Chadw'r Tiroedd
  - Mynwentydd (Plascrug, Cefnllan, Lledrod, Aberteifi)
  - Torri Porfa Amwynderau
  - Parciau a Gerddi
- Y Gwasanaethau Stryd
  - Glanhau Strydoedd
  - Glanhau Traethau
  - Gwacáu Biniau Sbwriel
- Gwastraff
  - Casglu Gwastraff
  - Gwaredu Gwastraff
  - Safleoedd Gwastraff Cartref

Gwasanaethau Trafnidiaeth:

- Uned Cludiant Teithwyr Corfforaethol
  - Cludiant i Ddysgwyr
  - Trafnidiaeth Gyhoeddus
  - Trafnidiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
- Fflyd Cerbydau
  - Rheoli'r Fflyd Cerbydau
  - Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth Glanyrafon
  - Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth Penrhos
- Harbyrau
  - Rheoli'r Harbyrau (ac eithrio Aber Afon Teifi)
  - Marcwyr/Goleuadau Mordwyo
  - Angorfeydd
- Gwasanaethau Parcio
  - Gorfodi Parcio Sifil
  - Meysydd Parcio Talu ac Arddangos

Gwasanaethau Cynnal a Chadw Priffyrdd:

- Archwilio Priffyrdd
  - Archwiliadau Cylchol Diogelwch ar y Priffyrdd
  - Archwiliadau ac Ymchwiliadau Ad Hoc
- Cynnal a Chadw Priffyrdd
  - Cynnal a Chadw Cylchol

    - Cynnal a Chadw Ymatebol
    - Ymateb i Ddigwyddiadau'r Tywydd
    - Gwisgo Arwyneb
- Gwasanaeth dros y Gaeaf
    - Trin ymlaen llaw/Graeanu
    - Clirio Eira
    - Cyflenwi/ailgyflenwi biniau graean
- Darpariaeth Frys/Y Tu Allan i Oriau
    - Cau Ffyrdd
    - Ymateb i Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd
    - Ymateb i Ddigwyddiadau'r Tywydd
- Gwaith Stryd
    - Cydlynu/Monitro gwaith ar y priffyrdd gan ymgymerwyr statudol
    - Trwyddedu sgipiau, sgaffaldwaith a chrynhoi
    - Trwyddedu gwaith preifat ar y brifforddd

Gwasanaethau Datblygu Priffyrdd:

- Gwasanaethau Dylunio Peirianyddol
    - Dylunio Priffyrdd
    - Dylunio ac Archwilio Strwythurol
    - Goruchwylio Safleoedd
- Rheoli Llifogydd a Dŵr
    - Caniatâd yn ymwneud â Draenio Tir a Chyrsiau Dŵr Cyffredin
    - Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB)
    - Rheoli Peryglon Llifogydd ac Erydu Arfordirol
- Traffig a Diogelwch ar y Ffyrdd
    - Traffig a Chyfyngiadau Parcio
    - Terfynau Cyflymder
    - Rheoli Traffig a Dadansoddi Data Damweiniau
    - Diogelwch ar y Ffyrdd
- Rheoli Asedau Priffyrdd a'u Gwella
    - Cau Ffyrdd
    - Rhoi Wyneb Newydd ar y Ffyrdd
    - Gwelliannau a Gynlluniwyd
    - Goleuadau Stryd
    - Rheoli Datblygu

Rhennir strwythur staffio'r gwasanaeth i'r rhai sydd wedi'u lleoli yn y swyddfa a thimau rheng flaen, gyda rhyw 100 o staff yn gyflogedig mewn swyddi wedi'u lleoli yn y swyddfa, a rhyw 150 (ac eithrio staff tymhorol) yn cael eu cyflogi mewn swyddi yr ystyrir eu bod yn rhai rheng flaen, gan gynnwys:

- 51 Cynnal a Chadw Priffyrdd
- 20 Gyrrwr Casglu Gwastraff
- 38 Llwythwr Casglu Gwastraff

- 12 Glanhau'r Strydoedd
- 7 Cynnal a Chadw'r Tiroedd
- 5 Gwasanaethau Parcio
- 9 Technegwr Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth

Mae nifer o staff Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn ymgymryd â mwy nag un swydd fel bod y gwasanaeth yn gallu cwrdd â'r gofynion a roddir arno. Mae un o'r meysydd hynny yn gysylltiedig â gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf, lle bo staff Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol cyfredol hefyd yn ymgymryd â'r rolau a ganlyn yn ychwanegol at eu swyddi parhaol:

- Gwaith Cynnal a Chadw dros y Gaeaf - 57 aelod staff
- Goruchwylwyr Cynnal a Chadw dros y Gaeaf - 8 aelod staff
- Swyddogion Dyletswydd y tu allan i oriau - 12 aelod staff

Cyllideb/Incwm

Fel gwasanaeth, derbyniodd Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol swm o £17.6m o gyllideb refeniw gyfan y Cyngor yn 21/22, sy'n cyfateb i rhyw 11% o'r gyllideb refeniw flynyddol (i lawr o 12.5% yn 17/18). Cafodd hwn ei ategu drwy grantiau o amryw ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth Cymru a thrwy gynhyrchu incwm drwy broses Ffioedd a Chostau'r Cyngor.

Yn ystod blwyddyn ariannol 21/22, roedd y gyllideb gwasanaeth gyfan yn fwy na £31m a llwyddwyd i ddenu £14m ychwanegol mewn grantiau cyfalaf (£6.3m) ac incwm a gynhyrchwyd drwy ffioedd (£7.7m).

Mae'r gyllideb refeniw sylfaenol ar gyfer 22/23 wedi'i phennu ar £18.2m (neu 10.8% o gyllideb gyfan y Cyngor) ac eto bydd y swm hwn yn cael ei ategu drwy gynhyrchu incwm a cheisiadau grant.

Yn nodweddiadol, mae'r prif ffrydiau incwm yn gysylltiedig â Grantiau Llywodraeth Cymru (£2.78m), Gwaith Cefnffyrdd (£1.23m), Parcio Ceir (£1.14m), Gwaith Stryd/Cau Ffyrdd (£400k) ac Angorfeydd Harbyrau (230K) - byddai gostyngiad sylweddol wrth ddarparu'r gwasanaeth heb yr incwm hwn.

Swyddogaethau Allweddol

O ran rhai '*prif ffigurau*', mae Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn gyfrifol am:

- Ymgymryd â 4.2m o Gasgliadau Gwastraff o dros 31,000 o aelwydydd bob blwyddyn
- Rheoli 30,000T o Wastraff
- Rheoli dros 700 o Finiau Sbwriel
- Cynnal a chadw dros 250 o Gerbydau gan gynnwys 70 Cerbyd Nwyddau Trwm
- Rheoli/Cynnal a Chadw 2260km o Briffyrdd y Cyngor
- Cynnal a Chadw 114km o Gefnffyrdd

- Trin Ymlaen Llaw 463km o Ffyrdd o ran Cynnal a Chadw dros y Gaeaf
- Cynnal a Chadw dros 600 o Finiau Graeanu
- Rheoli dros 1,700 o Fannau Parcio Talu ac Arddangos
- Rheoli dros 390 o Angorfeydd Harbyrau
- Rheoli/Cynnal a Chadw 12km o Amddiffynfeydd Arfordirol
- Datblygu 8 Cynllun Amddiffyn yr Arfordir/Llifogydd
- Darparu Gwasanaeth Ymateb Brys y tu allan i oriau
- Darparu Cludiant i Ddysgwyr ar gyfer 3,400 o Ddisgyblion
- Torri Porfa Amwynderau mewn dros 500 o safleoedd
- a llawer iawn mwy

Dangosyddion Perfformiad

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio nifer o Ddangosyddion Perfformiad i fonitro perfformiad ac er bod y rhan fwyaf o'r rhain yn ddangosyddion cenedlaethol, mae dangosyddion perfformiad mewnol hefyd yn cael eu datblygu i reoli'r gwasanaeth yn barhaus.

Isod ceir enghreifftiau o'r dangosyddion a fesurwyd sy'n dangos bod y targedau gofynnol yn cael eu croesi o ran y dangosyddion sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff a bod cyflwr y rhwydwaith briffyrdd yn gwella o un flwyddyn i'r llall:

- Canran y gwastraff trefol a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall **69.44%** yn 21/22 (**Targed 64%**)
- Cilogramau o Wastraff Gweddilliol a Gynhyrchir fesul person **120kg** yn 20/21 (**Targed 185kg**)
- System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol, Cadwch Gymru'n Daclus - Canran y strydoedd gradd B neu uwch o ran glendid **97.8%** yn 21/22 (**Targed *95%)***
- Canran Ffyrdd A mewn Cyflwr Gwael **3.2%** yn 21/22 (16/17 **4.2%**)
- Canran Ffyrdd B mewn Cyflwr Gwael **2.0%** yn 21/22 (16/17 **3.0%**)
- Canran Ffyrdd C mewn Cyflwr Gwael **14.7%** yn 21/22 (*16/17* ***19.4%)***
- Canran Diffygion mewn Priffyrdd Categori 1 a atgyweiriwyd erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf yn 21/22 **92.19%** (*Targed* ***95%)***
- Canran Archwiliadau Diogelwch ar y Ffyrdd a Gwblhawyd ar Amser **99.63% y**n 21/22 (*Targed* ***100%)***
- Canran Ceisiadau'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) a dderbyniwyd ac a gwblhawyd ar amser **100%** (**Targed 100%**)

a'r un mor bwysig, dyma rai o'r swyddogaethau nad yw Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn gyfrifol amdanynt:

- Rheoli'r Gefnffordd (A487/A44)
- Torri cloddiau/coed (oni bai eu bod yn rhai yr ydym yn berchen arnynt)

- Cynnal a Chadw ffyrdd/llwybrau preifat
- Tipio anghyfreithlon ar dir preifat

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam**		Na - amlinelliad o swyddogaethau'r gwasanaeth yn unig yw'r adroddiad
	Crynodeb:		
	Hirdymor:		
	Integreiddio:		
	Cydweithio:		
	Cynnwys:		
	Atal:		

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Argymhellir bod y Pwyllgor yn nodi'r gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddarperir gan Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Enw Cyswllt:	Rhodri Llwyd
Teitl:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Dyddiad yr Adroddiad:	27 Gorffennaf 2022
Acronymau:	
Atodiadau:	Gellir cael mwy o wybodaeth am swyddogaethau dethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Caru Ceredigion https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/caru-ceredigion/ Casglu Gwastraff https://www.ceredigion.gov.uk/media/5857/gwasanaeth-gasglu-gwastraff-y-cartref.pdf Trin Gwastraff https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/biniau-ac-ailgylchu/beth-sy-n-digwydd-i-fy-ngwastraff/ Safleoedd Gwastraff Cartref https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/biniau-ac-ailgylchu/safle-gwastraff-cartref-a-banciau-ailgylchu/ Harbyrau

	http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/yr-arfordir-a-phorthladdoedd/ Gorfodi Parcio http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/parcio-a-gorfodi-parcio-sifil/ Meysydd Parcio Talu ac Arddangos http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/parcio-a-gorfodi-parcio-sifil/meysydd-parcio-talu-ac-arddangos/ Gwasanaethau dros y Gaeaf http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/y-priffyrdd-dros-y-gaeaf/ Rheoli Peryglon Llifogydd ac Erydu Arfordirol http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/rheolir-arfordir-a-pherygl-llifogydd/rheoli-peryglon-llifogydd-lleol/ Cyrsiau Dŵr Afonydd http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/rheolir-arfordir-a-pherygl-llifogydd/cynnal-a-chadw-cyrsiau-dwr/ Draenio Cynaliadwy http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/rheolir-arfordir-a-pherygl-llifogydd/ Cau Ffyrdd http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/gwaith-ffordd/caur-ffyrdd/ Teithio Llesol https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/ Amddiffyn yr Arfordir http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/rheolir-arfordir-a-pherygl-llifogydd/amddifyn-yr-arfordir/ Diogelwch ar y Ffyrdd http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/diogelwch-ar-y-ffyrdd/

	Gwywiad Coed Ynn http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/bywyd-gwyllt-a-chadwraeth/gwywiad-coed-ynn/ Coed â Changhennau Isel overhanging trees - Council Tax.pdf